Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ar Orffennaf 18 2019 am 8 o'r gloch yn Neuadd Santes Ursula

Presennol : Morgan Morgan, Margaret Lewis, Fred Jones, Angharad Evans, Dylan Davies a'r clerc

Ymddiheuriad : Huw Griffith, Islwyn Jones, Lyn Davies

Yn absenoldeb y cadeirydd cymerwyd y gadair gan Morgan Morgan

Darllenwyd cofnodion Mehefin 20fed ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi

Derbyniwyd cais am ragor o fanylion wrth yr archwiliwr allanol ac anfonwyd ymateb h.y. (paratoi ac anfon 'Rheoliadau ar gyfer Rheolaeth Ariannol Effeithiol Cyngor Cymuned Llangwyryfon' a chopi o lythr y Cyngor Sir yn dweud eu bod yn tynnu'r tâl etholiad allan o'r praesept cyn i ni ei dderbyn)

Cyngor yr eglwys wedi darparu rhagor o fanylion ynglŷn â'u hawgrym o gael y fynwent wedi ei thorri yn broffesiynol. Rhoddwyd ystyriaeth i'r amcangyfrif oddi wrth Meurig Lloyd ond penderfynwyd gofyn i'r C Ff I i wneud y gwaith eleni eto, gan bwysleisio bod angen gwneud gwaith trwyadl a rhoi sylw i iechyd a diogelwch wrth fynd â strimmer dros wydr wedi torri. Anfon ateb at yr Eglwys hefyd i'r perwyl hynny.

Raymond Burrell a Lyn Davies i drefnu lle i osod yr hysbysfwrdd newydd yn Nhrefenter
Bydd y gost yn £330 + TAW = £396 allan o'r Cyfrif Cymunedol

Gohebiaeth
Gwybodaeth oddi wrth y Pwyllgor Rheoli Datblygu
Datblygu Gwasanaethau Trawma – y cyfnod ymgysylltu o 24 Mehefin-5 Awst.
Canolbarth a Gorllewin Iachach – strategaeth iechyd a gofal trwy'r 20 mlynedd nesaf.
Cynllun Datblygu Lleol – ymgynghoriad ynghylch Strategaeth a Ffefrir.
Cynllun Datblygu Lleol – ymgynghoriad ynghylch Safleoedd Posib Ychwanegol.

Radar Speed Sign. Y cwmni'n gofyn am unrhyw adwaith pellach, gan roi manylion cyswllt rhywun sy'n barod i siarad â'r Cyngor am ei brofiad o ddefnyddio'r arwyddion 'solar powered'. Y clerc i gysylltu ag ef.
Diolch oddi wrth Bwyllgor Apêl Eisteddfod 2020 am gyfraniad y Cyngor.
e-byst
Parcmon Llwybrau Cyhoeddus, Gareth Owen, yn dweud ei fod wedi gwneud peth gwaith ar y llwybr bach ac y byddai'n cadw golwg arno.
Cynllun Noson Allan. Cyngor y Celfyddydau mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion â chynllun i gael gwared y risg ariannol o lwyfannu sioeau proffesiynol yn y gymuned.
Cynhadledd a chyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru ym Mhafiliwn Bont 5ed Hydref.

Ariannol

Awdurdodwyd arwyddo siec cyflog y clerc, £300, erbyn diwedd y mis.

Cyfrif cyfredol (28 Mehefin) £1704.72
Cyfrif cymunedol £25,501.48

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fedi 19